
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Ferndale Dental Care, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 25 Awst 2026

Dyddiad cyhoeddi: 25 Tachwedd 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein **gwefan** neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-749-3

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom 5

2. Crynodeb o'r arolygiad 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym 10

   Ansawdd Profiad y Claf 10

   Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol 13

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth 18

4. Y camau nesaf 23

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad 24

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith 25

Atodiad C – Cynllun gwella 26



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ferndale Dental Care, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 25 Awst 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr, a chwblhawyd wyth holiadur gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn dangos ymrwymiad cadarnhaol i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gofal teg a gofal amserol. Roedd cleifion yn cael eu cefnogi i gynnal iechyd y geg da drwy wybodaeth hybu iechyd amrywiol a hygyrch, a oedd ar gael ar fersiynau print ac ar-lein ac roedd clinigwyr yn rhoi cyngor wedi'i deilwra yn ystod ymgyngoriadau. Roedd gwybodaeth allweddol, gan gynnwys ffioedd, manylion y tîm deintyddol, oriau agor, trefniadau brys, y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion ar gael yn glir i gleifion.

Roedd gan y practis drefniadau effeithiol i gynnal urddas a phreifatrwydd, gan gynnwys cytundebau cyfrinachedd wedi'u llofnodi, ardaloedd preifat ar gyfer sgyrsiau sensitif a mesurau priodol mewn ystafelloedd clinigol. Roedd mynediad amserol at ofal yn cael eu cefnogi drwy opsiynau trefnu apwyntiadau hyblyg, apwyntiadau brys dyddiol, brysbennu clinigol a chyfathrebu clir ynghylch achosion o oedi.

Roedd y practis hefyd wedi cymryd camau cadarnhaol i gefnogi mynediad teg, gan gynnwys gwybodaeth ddwyieithog, fformatau amgen, cymorth cyfieithu, canllawiau bob ochr i'r grisiau, apwyntiadau hwy a chyfeirio at eiriolwyr. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn dangos ymwybyddiaeth o anghenion cleifion trawsryweddol.

Roedd yr adborth o holiadur AGIC yn gyson gadarnhaol, gyda chleifion yn cadarnhau bod y staff yn trafod iechyd y geg, yn esbonio triniaethau'n glir, yn gwrando arnynt, yn ateb cwestiynau ac yn eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amrywiaeth eang o ddeunyddiau hybu iechyd y geg ar gael
- Roedd preifatrwydd ac urddas y cleifion, a pharch tuag atynt, yn cael eu cynnal yn gyson
- Roedd amrywiaeth dda o ddeunyddiau dwyieithog ar gael.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yn ymddangos bod y practis yn darparu gofal diogel, effeithiol ac effeithlon mewn adeilad a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a thrwy gyfleusterau hygyrch a threfniadau llywodraethu sefydledig. Roedd yr amgylchedd yn lân, yn daclus ac yn addas ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir, ac roedd gwiriadau tân, trydanol, nwy, gwastraff ac iechyd a diogelwch cynhwysfawr yn cefnogi proses rheoli risg effeithiol.

Roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau yn gadarn ar y cyfan, ac roedd arweinydd dynodedig, polisïau priodol, amserlenni glanhau, mesurau hylendid dwylo a phrosesau dihalogi diogel ar waith. Roedd proses ar waith ar gyfer cwblhau a chofnodi gwiriadau diwedd y dydd ar y cyfarpar dihalogi. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bylchau yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt a gwelsom nad oedd rhai gwiriadau wedi'u cynnal yn briodol.

Roedd y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer meddyginiaethau ac argyfyngau yn cael eu rheoli'n dda, ac roedd cyfarpar adfywio priodol, storfa ddiogel, hyfforddiant staff cyfredol a phrosesau adolygu digwyddiadau effeithiol ar waith. Roedd systemau diogelu addas ar waith, wedi'u cefnogi gan bolisïau cyfredol, gwybodaeth adrodd hygyrch a staff a oedd wedi cwblhau hyfforddiant priodol ac yn deall sut i nodi ac uwchgyfeirio pryderon.

Roedd y cyfarpar clinigol a'r trefniadau ar gyfer ymbelydredd ïoneiddio yn bodloni'r gofynion perthnasol, ac roedd cyngor arbenigol addas, prosesau sicrhau ansawdd a chymhwysedd y staff yn amlwg. Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom eu bod yn glir, yn ddarllenadwy ac yn cael eu rheoli'n ddiogel, a bod gofal clinigol yn dilyn canllawiau proffesiynol a statudol. Roedd y tîm deintyddol ehangach, prosesau brysbennu dan arweiniad deintyddion, apwyntiadau brys a'r broses aildrefnu apwyntiadau wedi'u canslo yn effeithiol ac yn cefnogi mynediad amserol i gleifion.

Ar y cyfan, dangosodd y practis ymrwymiad cadarnhaol i ddiogelwch cleifion, prosesau llywodraethu a gwelliant parhaus.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid cwblhau cofnodion dihalogi ar ddiwedd y dydd a gwiriadau cysylltiedig yn gywir ac yn gyson
- Dylid rhoi rhestr wirio a chofnod atgyfeiriadau ar waith a fyddai'n cefnogi apwyntiadau dilynol amserol ac yn monitro a yw cleifion yn mynd i'r ysbyty.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau a hyfforddiant diogelu cadarnhaol

- Defnydd effeithlon o apwyntiadau, gan gynnwys capasiti dyddiol ar gyfer gofal brys.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn dangos arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu cryf ac ymrwymiad i wella'n barhaus. Roedd atebolrwydd clir, cyfarfodydd rheolaidd, sesiynau goruchwylio staff, prosesau goruchwylio polisïau a rheoli risg yn cael eu cefnogi gan y feddalwedd 'Dental Compliance Made Easier' (DCME), a oedd hefyd yn rheoli hyfforddiant a chyfathrebiadau'n ymwneud â diogelwch.

Roedd diwylliant gweithlu cefnogol yn seiliedig ar drefniadau staffio diogel, prosesau sefydlu strwythuredig, monitro DPP, arfarniadau a gwiriadau recriwtio. Roedd y staff yn teimlo'n hyderus i godi pryderon, gan adlewyrchu amgylchedd agored a chadarnhaol.

Roedd prosesau sefydlu, gwiriadau cymhwysedd a chamau i oruchwylio cofrestriadau, hyfforddiant ac arfarniadau yn sicrhau bod y staff yn meddu ar y sgiliau gofynnol ac yn cael eu cefnogi. Roedd staff dan hyfforddiant yn cael cymorth priodol, ac roedd nyrs ddeintyddol a oedd wedi'i chofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol bob amser yn bresennol i hybu gofal diogel a dibynadwy.

Roedd y cleifion a'r staff yn cael eu hannog i roi adborth ac i godi pryderon. Roedd cwynion, digwyddiadau ac adborth yn llywio gwelliannau, gan gynnwys amseroedd aros llai. Roedd y wybodaeth am gwynion yn dilyn proses 'Gwrando ar Bobl' GIG Cymru, ac roedd y staff yn deall y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Roedd archwiliadau clinigol, y broses adolygu cymheiriaid, gwersi a rennir a phartneriaethau â meddygon teulu, timau diogelu, gofal eilaidd a'r bwrdd iechyd yn cefnogi gofal cydlynus a gwelliant. Ar y cyfan, roedd y practis yn cynnal systemau diogel, yn gwerthfawrogi'r gwersi a ddysgwyd ac yn canolbwyntio ar roi profiadau a chyflawni canlyniadau gwell i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Prosesau recriwtio cadarn
- Trefniadau rheoli clir ac effeithiol
- Trefniadau gweithio mewn partneriaeth cadarnhaol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd yr adborth a gawsom gan ymatebwyr i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Nododd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ‘dda iawn’. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *“Cyfeillgar iawn ac maen nhw'n esbonio popeth yn fanwl.”*
>
> *“Mae [enw'r deintydd] yn wych.”*

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd y practis yn cefnogi cleifion i ofalu am iechyd eu ceg drwy ddarparu amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd ar brint ac ar-lein. Roedd gwybodaeth wedi'i hargraffu ar gael yn y dderbynfa ar y llawr gwaelod a'r ardal aros, gan gynnwys canllawiau ar roi'r gorau i smygu, bwyta'n iach ac iechyd y geg da. Roedd ffolder gwybodaeth i gleifion hefyd ar gael ac yn cynnwys gwybodaeth am sepsis, herpes simplex a risgiau a manteision sy'n gysylltiedig â phelydrau-X deintyddol.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff clinigol yn rhoi cyngor wedi'i deilwra i'r cleifion ar iechyd y geg yn ystod apwyntiadau ymgynghori, a oedd yn cefnogi gofal cleifion a oedd wedi'i deilwra at yr unigolyn. Roedd y datganiad o ddiben a thaflen wybodaeth y practis ar gael ar wefan y practis. Roedd gwybodaeth am gostau triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat wedi'u harddangos yn glir yn yr ardal aros ar y llawr gwaelod. Roedd poster o'r staff hefyd wedi'i arddangos yn yr ardal hon ac yn cynnwys enwau aelodau o'r tîm deintyddol, eu rolau ynghyd â'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol lle y bo'n berthnasol.

Roedd yr oriau agor a'r rhifau cyswllt mewn argyfwng a'r tu allan i oriau wedi'u harddangos yn glir ar yr hysbysfwrdd yn yr ardal aros ar y llawr gwaelod er mwyn cefnogi cleifion ymhellach. Roedd hyn yn sicrhau y gallai'r cleifion gael gafael ar wybodaeth berthnasol a chyfredol.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a atebodd y cwestiynau perthnasol yn holiadur AGIC fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd trefniadau ar waith yn y practis i sicrhau bod urddas a phreifatrwydd cleifion yn cael eu parchu. Roedd pob aelod o'r staff wedi llofnodi cytundeb cyfrinachedd ac roedd trefniadau ar waith i gefnogi sgyrsiau preifat, gyda galwadau cyfrinachol yn cael eu

cymryd i ffwrdd o ardal y dderbynfa pan oedd angen. Roedd drysau solet a oedd yn cael eu cadw ar gau pan oedd y cleifion yn cael triniaeth wedi'u gosod yn yr ystafelloedd clinigol.

Roedd naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn y practis, a oedd yn helpu i atgyfnerthu'r safonau proffesiynol disgwyliedig. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod aelodau'r tîm deintyddol yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol yr apwyntiad. Roeddent yn teimlo bod y tîm yn gwrando arnynt ac roedd unrhyw gwestiynau a oedd ganddynt yn cael eu hateb. Roedd pob un o'r cleifion yn teimlo bod opsiynau triniaeth yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallent ei deall a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal, gan eu galluogi i wneud dewis gwybodus am eu gofal a'u cynllun triniaeth.

Amserol

Gofal amserol

Roedd y practis yn cefnogi mynediad amserol at ofal drwy amrywiaeth o opsiynau o ran apwyntiadau. Roedd yn bosibl trefnu archwiliadau ac ymgyngoriadau ar-lein, a gallai'r cleifion hefyd gyflwyno ymholiadau ar-lein. Roedd dewis o amseroedd apwyntiad yn cael eu cynnig i'r cleifion. Roedd achosion o oedi yn cael eu cyfleu'n rhagweithiol. Pan fyddai staff y dderbynfa yn nodi bod deintydd yn rhedeg yn hwyr, roeddent yn rhoi gwybod i'r cleifion ac yn cynnig yr opsiwn o aros neu ailddrefnu eu hapwyntiad. Roedd y deintyddion a'r nyrsys deintyddol hefyd yn defnyddio system anfon negeseuon y practis pan fo'n briodol.

Roedd apwyntiadau brys ar gael yn ddyddiol gyda chleifion yn gallu ffonio yn y bore os byddai angen. Roedd y practis yn blaenoriaethu'r cleifion â'r anghenion gofal mwyaf brys drwy gael clinigydd priodol i'w brysbennu'n glinigol. Roedd dyddiadau ac amseroedd apwyntiadau'n cael eu trafod â'r cleifion adeg trefnu'r apwyntiad, a oedd yn helpu i sicrhau bod apwyntiadau'n cael eu trefnu ar amseroedd addas. Roedd y cleifion â'r anghenion mwyaf brys yn cael eu blaenoriaethu drwy apwyntiadau brys ac roedd rhestr aros ar gael fel y gellid cynnig apwyntiadau wedi'u canslo i eraill yn brydlon. Roedd yn rhaid i'r cleifion aros tua deufis rhwng apwyntiadau am driniaeth gyda deintydd a rhwng pythefnos a thair wythnos am apwyntiad gyda therapydd deintyddol.

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo ei bod hi'n ‘hawdd iawn’ trefnu apwyntiad ac roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd y practis yn darparu gwasanaeth dwyieithog, gyda gwybodaeth i gleifion i'w gweld yn Gymraeg ac yn Saesneg yn yr ardal aros. Roedd y staff yn ymwybodol o'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac yn gallu cyfarch cleifion yn Gymraeg. Roedd dau aelod o'r staff yn siarad Cymraeg ac yn gwisgo bathodynnau i ddangos eu sgiliau iaith. Roedd cyfleoedd ar gael i ddatblygu sgiliau Cymraeg drwy hyfforddiant sgiliau Cymraeg sylfaenol a chyfleoedd prentisiaeth rheoli. Dywedwyd bod hyfforddiant pellach ar gael lle byddai'r staff yn mynegi diddordeb.

Roedd cleifion nad Saesneg yw eu mamiaith yn gallu cael cymorth cyfieithu drwy 'thebigword' ac roedd y staff yn deall pwysigrwydd cyfathrebu â phobl yn eu dewis iaith. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael i gleifion mewn fformatau eraill, gan gynnwys yn Gymraeg, mewn print mawr a hawdd ei deall ac roedd dolen sain ar gael yn y dderbynfa i gefnogi cleifion a oedd yn drwm eu clyw. Roedd cleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol yn gallu trefnu apwyntiadau wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy unigolyn a enwebwyd i weithredu ar eu rhan, a oedd yn cefnogi mynediad teg at ofal deintyddol.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd y practis yn dangos ymrwymiad cadarnhaol i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy ei ddiwylliant, polisïau a phrosesau o ddydd i ddydd. Roedd cyfleoedd cyfartal a gwerth amrywiaeth yn cael eu hadlewyrchu yn llawlyfr y gweithwyr, ac roedd y staff yn cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd polisi dim goddefgarwch ar gael er mwyn helpu i amddiffyn y cleifion a'r staff rhag achosion o wahaniaethu ac aflonyddu. Roedd y gwasanaeth wedi gwneud addasiadau rhesymol i gefnogi mynediad teg, gan gynnwys amseroedd apwyntiad hyblyg, apwyntiadau hirach i gleifion ag anghenion ychwanegol, roedd breichiau ar y cadeiriau yn yr ystafell aros, roedd canllawiau cydio ar gael yn y toiled a chanllaw bob ochr i'r grisiau.

Roedd y practis hefyd yn parchu cleifion trawsryweddol, gan fod enwau a rhagenwau a ffefrir yn cael eu defnyddio a'u cofnodi ar y system glinigol.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi gallu cael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, a dywedodd pob un ohonynt nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r practis na'i ddefnyddio.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod amgylchedd y practis yn addas at y diben ar y cyfan ac yn cael ei gynnal a'i gadw i safon foddhaol y tu mewn a'r tu allan. Roedd yr adeilad yn hygyrch, gyda drysau addas, deintyddfa ar y llawr gwaelod a chanllawiau cydio yn y toiled ar gael ar gyfer pobl ag anawsterau symudedd. Roedd yr amodau cyffredinol yn gadarnhaol, roedd y systemau goleuadau a gwres yn dda, roedd y system awyru yn briodol a phob ardal yn lân ac yn daclus. Roedd pictogram clir ar gyfer y toiled ac roedd yn cynnwys cyfarpar golchi a sychu dwylo a chyfleusterau gwaredu eitemau mislif.

Roedd yn ymddangos bod maint a chynllun y practis yn addas ar gyfer y tair deintyddfa, gydag ystafell ddihalogi ddynodedig ac ystafelloedd aros. Clywsom fod y llinellau ffôn yn gweithio'n effeithiol ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd cyfleusterau ar gael i'r staff newid a storio eu heiddo personol. Roedd asesiad risg tân a chynllun gweithredu cyfredol ar gael, contract cynnal a chadw ar gyfer cyfarpar tân, larymau a diffoddwyr a thystiolaeth o brofion rheolaidd ar gyfarpar canfod tân. Roedd arwyddion ar gyfer allanfeydd tân, cyfarwyddiadau mewn achos o dân, man ymgynnull a dim smygu yn cael eu harddangos yn glir ac roedd diffoddwyr tân ar gael. Gwelsom dystiolaeth bod profion misol ar y goleuadau brys, arolygiadau blynyddol o'r diffoddwr tân a phrofion wythnosol ar y larwm tân yn cael eu cwblhau'n fewnol. Roedd gan y practis hefyd dystiolaeth o adolygiad blynyddol o ragofalon diogelwch tân.

Roedd y ddogfennaeth diogelwch ofynnol, gan gynnwys diogelwch nwy, profion offer cludadwy, cofnodion archwilio gosodiadau trydanol, tystysgrifau yswiriant a'r poster iechyd a diogelwch, ar gael neu'n cael eu harddangos fel y bo'n ofynnol.

Roedd y trefniadau rheoli gwastraff yn briodol ac roedd Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn cael eu cefnogi gan arwyddion priodol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau ar waith yn y practis i gefnogi'r trefniadau atal a rheoli heintiau, gydag arweinydd rheoli heintiau dynodedig wedi'i nodi. Roedd y meysydd a adolygwyd yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau, amserlenni glanhau, hylendid dwylo, cyfarpar diogelu personol a phrosesau rheoli salwch anadlol. At hynny, gwnaethom hefyd wirio glendid yr amgylchedd, cymorth iechyd galwedigaethol, diogelwch offer miniog a phrosesau dihalogi dyfeisiau meddygol amldro. Ar y cyfan, nodwyd gennym fod trefniadau atal a rheoli heintiau priodol ar waith yn yr ardaloedd a welsom.

Roedd proses ar waith ar gyfer cwblhau a chofnodi gwiriadau diwedd y dydd ar y cyfarpar dihalogi. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bylchau yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt a gwelsom nad oedd rhai gwiriadau wedi'u cynnal yn briodol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl wiriadau ar y cyfarpar dihalogi eu cynnal yn briodol ar ddiwedd y dydd a'u cofnodi'n gywir ac yn gyson.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd trefniadau cadarnhaol ar waith yn y practis ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol, meddyginiaethau brys a chyfarpar adfywio. Roedd tystiolaeth bod cyfarpar adfywio brys ar gael, gan gynnwys Diffibriliwr Allanol Awtomataidd a'r masgiau a'r padiau cysylltiedig. Roedd y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR) ac adfywio brys, gan gynnwys anaffylacsis. Roedd y trefniadau ar gyfer argyfyngau meddygol yn cael eu cefnogi gan bolisïau yn seiliedig ar ganllawiau adfywio cenedlaethol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio oddi wrth y cleifion, roedd padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel a dywedwyd wrthym y rhoddwyd gwybod am adweithiau niweidiol i gyffuriau drwy'r cynllun Cerdyn Melyn. Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau hefyd. Roedd tystiolaeth gadarnhaol hefyd wedi'i nodi mewn perthynas â chynnal a chadw silindrau ocsigen, hyfforddiant i'r staff ar ddefnyddio ocsigen, trefniadau rhoi gwybod am ddigwyddiadau, sicrhau bod pecyn cymorth cyntaf ar gael a threfniadau cymorth cyntaf priodol.

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau cyffredinol ar gael, ochr yn ochr â pholisïau unigol a oedd yn cwmpasu sawl posibiliad a oedd yn gysylltiedig â rheoli meddyginiaethau. Roedd trefniadau cadarn ar waith ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau a'u hadolygu, nodi themâu sy'n codi dro ar ôl tro, cwblhau camau gweithredu a rhannu'r gwersi a ddysgwyd. Roedd yn amlwg bod y gwasanaeth yn goruchwylio'r trefniadau llywodraethu a oedd yn rhoi sicrwydd bod risgiau'n cael eu monitro a bod gwelliannau'n cael eu cwblhau ac yn gynaliadwy.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gan y practis drefniadau diogelu priodol ac effeithiol. Roedd polisi diogelu'r practis ar gyfer plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn gyfredol ac wedi'i adolygu'n ddiweddar. Roedd y polisi yn cynnwys manylion cyswllt lleol ar gyfer rhoi gwybod am bryderon, ac roedd y staff yn gallu cael gafael ar Weithdrefnau Diogelu Cymru yn electronig. Roedd y staff yn meddu ar wybodaeth gyfredol am faterion yn ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion drwy hyfforddiant rheolaidd a diweddariadau gan dimau diogelu lleol, a oedd yn helpu'r practis i sicrhau y gallai barhau i gael gafael ar y canllawiau amddiffyn plant ac oedolion cyfredol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod â phwy i gysylltu yn lleol ac roeddent yn deall y camau y dylid eu cymryd i nodi pryderon diogelu, ymateb iddynt a rhoi gwybod amdanynt. Roedd gwybodaeth yn y dderbynfa, manylion cyswllt yn y ffolder gwybodaeth i gleifion a siart lif y staff ar gael i lywio'r broses o nodi honiadau o gam-drin, ymateb iddynt a rhoi gwybod amdanynt. Disgrifiodd y staff y broses adrodd yn

gywir ac roeddent yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli lleol, clinigwyr a'r sefydliad cyfan. Roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu i'r lefel briodol, ac roedd hyfforddiant lefel 3 yr arweinydd diogelu yn gyfredol.

Cadarnhaodd y practis ei fod yn monitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant, yn cael diweddariadau rheolaidd gan dimau diogelu lleol ac yn gwirio'n rheolaidd bod cysylltiadau adrodd, dolenni ar-lein a chanllawiau'r staff yn gyfredol, yn hygyrch ac yn ddealladwy o hyd.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd trefniadau cadarnhaol ar waith yn y practis i gefnogi'r broses o reoli a defnyddio cyfarpar clinigol ac ymbelydredd ïoneiddio yn ddiogel. Roedd dyfeisiau meddygol amldro yn cael eu trafod a'u diheintio'n briodol, a gwelsom dystiolaeth bod y cywasgydd wedi'i wasanaethu yn unol â'r gofynion disgwyliedig. Nodwyd bod y cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas i'w defnyddio, gyda threfniadau ar waith ar gyfer cynnal a chadw, archwilio ac ymateb yn brydlon os bydd y cyfarpar neu'r system yn methu.

Roedd gan y practis gymorth Arbenigwr Ffiseg Feddygol a Chynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd priodol ac roedd gweithdrefnau'r cyflogwr, a oedd yn ofynnol gan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017 ar waith. Roedd y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd IR(ME)R ac roedd y dystiolaeth yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant, eu bod yn gymwys a bod ganddynt hawl i ymgymryd ag agweddau ymarferol ar gysylltiadau a chynnal gwerthusiad clinigol o belydrau-X deintyddol. Roedd trefniadau rheoli risg a sicrhau ansawdd ar waith ar gyfer gweithdrefnau ysgrifenedig, protocolau, cyfarpar, ansawdd delweddau, lefelau dosau a rheoli digwyddiadau.

Roedd trefniadau sicrhau ansawdd ar waith ar gyfer cyfarpar pelydr-X digidol, prosesu delweddau, cadw copïau wrth gefn o ddata, cofnodion cynnal a chadw, goruchwyliaeth reolaidd o gyfarpar arferol ac adroddiadau o gyfarpar pelydr-X. Roedd y dystiolaeth a welwyd yn dangos bod y practis wedi sefydlu systemau diogel ac effeithiol i reoli risgiau sy'n gysylltiedig ag ymbelydredd a chynnal a chadw cyfarpar yn ddiogel.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd trefniadau diogel ac effeithiol ar waith yn y practis ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y dystiolaeth a welwyd yn dangos bod canllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol wedi'u dilyn, lle y bo'n briodol, wrth ddarparu triniaeth. Roedd rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol (LocSSIPs) i gefnogi gofal diogel ac er mwyn helpu i atal achosion o dynnu'r dant anghywir ar waith ac roeddent yn cael eu defnyddio gan y clinigwyr. Yn ogystal,

roedd y staff wedi cael cyngor proffesiynol perthnasol lle y bo'n ofynnol, gan ddangos dull cadarnhaol o lywodraethu clinigol, diogelwch cleifion a gwneud penderfyniadau mewn modd effeithiol.

Cofnodion cleifion

Roedd systemau a pholisïau priodol ar waith yn y practis i gefnogi proses o gadw cofnodion cleifion, rheoli cofnodion a chynnal hawliau'r cleifion. Roedd polisi a system rheoli cofnodion, trefniadau cydsynio, trefniadau diogelu hawliau'r cleifion nad oes ganddynt alluedd, cydymffurfiaeth â'r gofynion diogelu data, trefniadau storio cofnodion ar gyfrifiadur, storio modelau, a chofnodion ar waith. Roedd y practis yn rheoli cofnodion yn unol â'r gofynion perthnasol ar ddiogelu data. Roedd pob un o gofnodion y cleifion yn electronig gan ddefnyddio datrysiad meddalwedd masnachol ac roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da.

Trafodwyd y broses rheoli atgyfeiriadau â rheolwr y practis mewn ffordd adeiladol a rhoddwyd rhestr wirio ar waith i gryfhau'r broses cofnodi ac olrhain atgyfeiriadau a gohebiaeth rhyddhau cleifion. Er bod y cofnodion ar gael ym mhob deintyddfa ar gyfer atgyfeiriadau lle amheuir achos o ganser y geg, nid oeddent yn cael eu defnyddio. Roedd hyn yn gyfle clir i sicrhau bod y trefniadau presennol yn fwy cyson ac i roi sicrwydd bod y cleifion a gaiff eu hatgyfeirio lle amheuir achos o ganser y geg yn cael eu gweld yn yr ysbyty.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau addas ar waith i gofnodi, monitro ac olrhain atgyfeiriadau'n gyson, gan gynnwys atgyfeiriadau lle amheuir achos o ganser y geg, a sicrhau yr adolygir ac y gweithredir ar unrhyw ohebiaeth berthnasol yn briodol.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd trefniadau ar waith yn y gwasanaeth er mwyn helpu i ddarparu gofal effeithlon o ansawdd da. Roedd y staff yn gwneud defnydd effeithiol o'r tîm deintyddol ehangach, gan gynnwys hylenwyr a nyrsys, er mwyn cefnogi llif cleifion drwy'r llwybrau trin, gyda sgiliau ychwanegol fel cymryd pelydr-X yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at ofal amserol. Roedd anghenion gofal deintyddol brys yn cael eu rheoli drwy slotiau brysbennu dan arweiniad deintydd a slotiau apwyntiadau brys dyddiol, a oedd yn helpu'r cleifion i gael gafael ar ofal priodol ac yn lleihau'r tebygolrwydd o bresenoldeb y gellid bod wedi'i osgoi mewn gwasanaethau gofal brys neu y tu allan i oriau.

Roedd y safle a'r cyfleusterau yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir ac fe'u nodwyd yn y cyd-destun bod cynlluniau ar y gweill i symud. Roedd y practis yn cynnig apwyntiadau wedi'u canslo i gleifion eraill a oedd wedi'u cynnwys ar restr aros, a oedd

yn cefnogi proses rheoli apwyntiadau effeithlon drwy alluogi cynnig apwyntiadau a oedd yn dod ar gael i gleifion eraill.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Roedd yr ymatebion i'r arolwg staff yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda phob aelod o'r staff yn cyfeirio at hyfforddiant priodol, arfarniadau rheolaidd ac amgylchedd gwaith addas. Mynegodd pob un o'r wyth ymatebydd hyder yn ansawdd y gofal a ddarperir, gan nodi bod cleifion yn cael eu trin ag urddas ac yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau a wneir am eu gofal, gyda phob aelod o'r staff yn nodi mai gofal cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis. Roedd ymwybyddiaeth gref o gyfrifoldebau proffesiynol, gan gynnwys y Ddyletswydd Gonestrwydd a rhoi gwybod am ddigwyddiadau, a gwelsom fod y trefniadau atal a rheoli heintiau yn gadarnhaol. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod adnoddau, cyfarpar a chymorth digonol ar gael iddynt. Roedd pob un ohonynt yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn eu rhoi i gleifion.

Dywedodd un aelod o'r staff:

> *“Mae'n lle hyfryd i weithio. Mae pob aelod o'r staff yn gyfeillgar ac yn broffesiynol ac mae gennym amgylchedd gwaith diogel.”*

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd y practis yn cael ei gefnogi gan strwythur rheoli clir a threfniadau llywodraethu effeithiol. Roedd yr arweinwyr yn deall eu cyfrifoldebau ac roedd y rheolwyr yn cael eu cefnogi'n briodol drwy hyfforddiant parhaus, gan gynnwys cymhwyster Lefel 4 y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM). Roedd datblygiad y tîm hefyd yn cael ei hybu drwy'r broses o gwblhau rhaglen y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth yn ddiweddar. Roedd datganiad o ddiben cyfredol ar waith ac roedd wedi cael ei adolygu o fewn yr amserlen ofynnol.

Roedd trefniadau cyfathrebu sefydledig ar waith ar gyfer y tîm drwy gyfarfodydd a gynhelir o leiaf bob mis, gyda chofnodion yn nodi'r rhai a oedd yn bresennol a'r rhai a oedd yn absennol. Rhannwyd y cofnodion â'r holl staff a chydweithwyr nad oeddent yn gallu bod yn bresennol lle bo angen i gadarnhau eu bod wedi'u darllen, a oedd yn cefnogi ymwybyddiaeth gyson o faterion presennol y practis. Roedd y rheolwyr hefyd yn cysylltu â'i gilydd drwy gyfarfodydd ar-lein a chyfarfodydd wyneb yn wyneb bob mis.

Roedd arweinwyr yn hyrwyddo datblygiad parhaus drwy drafodaethau un-i-un, lle roedd staff yn cael eu hannog i fyfyrio ar yr hyn a oedd yn gweithio'n dda, beth oedd modd ei wella ac yn cytuno ar amcanion gydag amserlenni i'w cyflawni.

Roedd asesiadau risg ar gael ar bapur ac yn electronig, ac roedd hysbysiadau diogelwch yn cael eu rhannu, eu trafod â'r staff a'u cofnodi ar y feddalwedd ‘Dental Compliance Made Easier’ (DCME). Roedd polisïau a gweithdrefnau hefyd yn cael eu cynnal ar DCME, a oedd yn anfon negeseuon ysgogi pan fyddai angen eu hadolygu a byddai'r rhain yn cael eu cyfleu i'r staff.

Trafododd rheolwr y practis sut mae'n bwriadu parhau i gryfhau'r trefniadau llywodraethu da presennol drwy sicrhau bod yr holl asesiadau risg yn cael eu hadolygu i gadarnhau eu bod yn cwmpasu'r amrywiaeth lawn o amgylchiadau rhesymol y gellir eu rhagweld, gan gofnodi'r dyddiadau adolygu a'r camau lliniaru'n glir.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd y practis wedi cynnal systemau cadarnhaol i gefnogi staffio, recriwtio, hyfforddiant a chydymffurfiaeth broffesiynol ddiogel. Roedd y lefelau staffio yn cael eu rheoli drwy oruchwylio rotâu, wedi'u cefnogi gan strwythur staffio clir a oedd yn helpu i sicrhau bod staff cymwys sydd wedi cwblhau hyfforddiant addas ar gael, gyda threfniadau rhoi gwybod am salwch ar waith i gefnogi newidiadau amserol lle bo angen. Roedd nyrs ddeintyddol a oedd wedi'i chofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn bresennol yn yr adeilad bob amser ac nid oedd aelodau o'r staff dan hyfforddiant yn cael eu gadael i weithio ar eu pen eu hunain. Nid oedd nyrsys deintyddol dros dro ac asiantaeth yn cael eu defnyddio, a oedd yn lleihau risgiau posibl i barhad y gofal.

Roedd systemau'n cael eu defnyddio i gefnogi cynefino, sefydlu, goruchwylio hyfforddiant a monitro DPP, gyda'r staff yn derbyn negeseuon ysgogi ac atgoffa pan oedd hyfforddiant neu ofynion cydymffurfio'n ddisgwyliedig. Roedd staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant drwy amser gwarchodedig a chymorth wrth weithio, gyda thystiolaeth fel tystysgrifau cwblhau, ffeiliau'r staff a matrics hyfforddiant ar gael i'w hadolygu yn ystod yr arolygiad.

Dangosodd y practis lefel ragorol o gydymffurfiaeth â rhwymedigaethau proffesiynol ymhlith y staff. Roedd cofrestriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chofnodion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith hyd at y lefel briodol, yn ogystal â gwiriadau iechyd. Roedd gwiriadau recriwtio yn cael eu monitro gan reolwr y practis, gyda phrosesau cynefino yn cefnogi gwiriadau geirda a threfniadau dechrau swydd. Roedd y system DCME electronig yn anfon negeseuon ysgogi at y staff pan oedd angen cwblhau gwiriadau, gan anfon negeseuon ysgogi at y rheolwyr hefyd i sicrhau eu bod yn rhaeadru gwybodaeth i'r staff.

Roedd y staff yn ymwybodol o bolisïau perthnasol ac yn gweithio yn unol â nhw, gan gynnwys polisïau recriwtio, sefydlu a chwythu'r chwiban. Nododd y rhai y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon os oedd angen, a oedd yn adlewyrchu diwylliant cadarnhaol ac agored. Dywedwyd yr ymdrinnir â materion yn ymwneud â pherfformiad drwy drefniadau arfarnu, gyda'r opsiwn i ymateb yn gynt lle bo angen. Roedd y prosesau goruchwylio staff yn strwythuredig drwy arfarniadau blynyddol a chyfarfodydd un i un bob chwe mis, a chynhaliwyd adolygiadau o staff dan hyfforddiant yn fisol. Roedd yn bosibl cynnal trafodaethau ychwanegol pan fo angen, gan ddangos dull ymatebol i ddatblygiad a chymorth staff.

Roedd y prosesau recriwtio yn cael eu rheoli drwy lwybrau sefydledig, gyda deintyddion yn cael eu recriwtio gan y rheolwyr busnes ac aelodau eraill o'r staff gan ddilyn proses recriwtio'r practis.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd trefniadau cadarnhaol ar waith yn y practis i wrando ar adborth gan gleifion a dysgu oddi wrtho. Roedd y cleifion yn gallu rhoi adborth drwy flwch awgrymiadau yn y dderbynfa a thrwy system Working Feedback. Roedd ceisiadau am adborth yn cael eu hanfon o fewn 45 munud i apwyntiadau, ac roedd ymatebion yn cael eu cofnodi a'u monitro'n rheolaidd. Trafodwyd yr holl adborth a dderbyniwyd yng nghyfarfodydd y practis.

Roedd y practis yn adolygu adborth gan y cleifion ac yn gweithredu arno'n briodol. Lle gellid adnabod claf, byddai rheolwr y practis yn cysylltu ag ef i drafod ei bryder a cheisio datrys y mater ar lafar yn gynnar. Roedd adborth dienw yn cael ei fonitro fel y gellid nodi themâu a thueddiadau sy'n codi dro ar ôl tro. Dangosodd y practis hefyd ei fod wedi dysgu o ddigwyddiadau, gan fod amseroedd aros yn cael eu harchwilio a chamau gweithredu'n cael eu cymryd i leihau achosion o oedi.

Roedd gwybodaeth glir am godi pryderon a gwneud cwynion wedi'i harddangos yn yr ardal i gleifion. Roedd y wybodaeth yn gyson â'r broses Gwrando ar Bobl. Roedd hyn yn cynnwys y weithdrefn gwyno, amserlenni ar gyfer ymateb, ffynonellau cymorth eirioli, trefniadau uwchgyfeirio lle nad oedd modd datrys y mater yn lleol, a manylion cyswllt AGIC ar gyfer gofal deintyddol preifat. Nodwyd mai rheolwr y practis oedd y person dynodedig a oedd yn gyfrifol am ymdrin â chwynion ac roedd y wybodaeth hon wedi'i hysbysebu hefyd.

Roedd cwynion yn cael eu cofnodi ar system DCME, ynghyd â'r camau gweithredu a gymerwyd a'r canlyniadau. Roedd gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu â'r staff a'i chofnodi yng nghofnodion clinigol y cleifion hefyd. Roedd polisi Dyletswydd Gonestrwydd (dyletswydd) ar waith yn y practis ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant perthnasol yn hyn o beth ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd y staff yn cael eu hannog i godi pryderon a chyfathrebu'n agored â'r cleifion pan oedd rhywbeth wedi mynd o'i le. Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau wedi bodloni trothwy'r ddyletswydd. Fodd bynnag, roedd y practis wedi ystyried y ddyletswydd ym mhob achos perthnasol ac wedi nodi y byddai cymorth i'r claf neu'r teulu wedi cael ei ystyried lle y bo angen.

Dywedodd y practis sut y byddai'n parhau i archwilio cwynion a phryderon. Lle bo'n bosibl, byddai hyn yn cynnwys cryfhau'r broses drwy ddogfennu unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny yn ffurfiol, er mwyn gallu dangos tystiolaeth glir o ddysgu a gwelliannau parhaus. Trafodwyd y broses o gyflwyno

hysbysfwrdd “Dywedoch chi, gwnaethom ni”, a fyddai'n dangos sut roedd adborth gan gleifion wedi'i gydnabod a'i ddefnyddio i gefnogi gwelliannau.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y gwasanaeth yn defnyddio'r system DCME i gofnodi digwyddiadau diogelwch cleifion. Roedd prosesau clir ar waith i roi gwybod i'r staff bod digwyddiadau wedi codi, gan gynnwys anafiadau a achosir gan nodwydd, ac roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu am yr amgylchiadau, y canlyniadau ac unrhyw newidiadau i bolisïau oherwydd hynny. Roedd hyn yn dangos dull cadarnhaol o ddysgu gwersi fel sefydliad ac yn helpu i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o wybodaeth a gwelliannau perthnasol yn ymwneud â diogelwch.

Disgrifiodd y gwasanaeth broses briodol ar gyfer ymateb i unrhyw ddigwyddiad difrifol. Byddai cyfarfod yn cael ei gynnal, gyda'r staff yn cydweithio i lunio cynllun gweithredu ac yn cytuno ar unrhyw newidiadau gofynnol. Ar adeg yr adolygiad, ni fu'n rhaid i'r practis roi'r broses hon ar waith gan nad oedd unrhyw ddigwyddiadau difrifol wedi codi. Fodd bynnag, roedd yr ymateb cydweithredol a gynlluniwyd yn rhoi sicrwydd bod gwersi a gwelliannau yn cael eu hystyried.

Er mwyn cryfhau'r trefniadau hyn ymhellach, disgrifiodd rheolwr y practis sut y byddai'r practis yn cofnodi'r holl ddigwyddiadau diogelwch cleifion yn gyson ar system DCME ac yn cynnal prosesau cyfathrebu clir â'r staff a chyrff perthnasol y GIG.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y practis yn dangos ei fod wedi ymgorffori dull rhagweithiol ac wedi'i strwythuro o wella ansawdd a llywodraethu. Gwnaed hyn drwy ymrwymiad cadarnhaol i welliant parhaus a chynnal safonau gan ddefnyddio prosesau gwella ansawdd, archwiliadau clinigol a systemau llywodraethu mewnol. Dangosodd y dystiolaeth fod polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith, a oedd yn defnyddio trefniadau llywodraethu mewnol fel meddalwedd cydymffurfio â gofal iechyd a systemau seiliedig ar dasgau i fonitro meysydd gan gynnwys polisïau. Nodwyd bod y trefniadau ar gyfer llunio datganiad neu adroddiad blynyddol ar gyfer AGIC wedi'u cwblhau gan yr unigolyn cyfrifol pan oedd yn ofynnol.

Roedd rhaglen o archwiliadau clinigol ar waith. Dangosodd y practis sut roedd wedi defnyddio canlyniadau archwiliadau i wneud gwelliannau.

Gallai'r staff gael adolygiad gan gymheiriaid a chyngor proffesiynol pan oedd angen ac roedd y practis yn monitro dysgu a gwelliannau drwy gwynion, adborth gan gleifion, ymchwiliadau, adroddiadau a digwyddiadau. Gallai'r staff weithio mewn sawl safle a rhannu enghreifftiau o arfer da â'r lleoliad hwn. Roedd unrhyw welliannau a gyflwynwyd

yn cael eu cyfleu i'r staff ac roedd canlyniadau archwiliadau'n cael eu defnyddio'n gadarnhaol i gynnal a datblygu safonau ymhellach.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd y practis yn gweithio'n gadarnhaol gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i gefnogi gofal diogel a chydlynus. Roedd y practis yn cydgysylltu'n rheolaidd â meddygon teulu ynghylch plant a oedd yn colli apwyntiadau neu lle roedd pryderon yn ymwneud â phlentyn sy'n derbyn gofal yr oedd y practis eisoes yn gwybod amdano.

Ar ddau achlysur, gwnaed atgyfeiriadau diogelu at y timau diogelu priodol gan fod apwyntiadau wedi'u colli'n rheolaidd. Gwnaed atgyfeiriadau hefyd at ofal eilaidd drwy borth FDS pan nad oedd plant yn gallu ymdopi â thriniaeth ac ystyriwyd gwasanaethau deintyddol preifat lle roedd angen triniaeth breifat.

Roedd y practis yn gweithredu o fewn strwythur corfforaethol ehangach yn hytrach nac fel rhan o drefniant clwstwr. Roedd y gweithgarwch ymgysylltu yn sicrhau prosesau atgyfeirio symlach a chyfleoedd hyfforddi a rennir, a oedd yn cyfrannu at ofal cleifion cydlynol a chynhwysfawr o fewn eu cymuned. Roedd rhan y bwrdd iechyd drwy arolygiadau hefyd wedi darparu haen ychwanegol o oruchwyliaeth o'r tu allan.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ferndale Dental Care

Dyddiad yr arolygiad: 25 Awst 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau	Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad		
Yr hyn sydd angen ei wella		**Safon / Rheoliad**	
1.			
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		**Swyddog cyfrifol**	**Amserlen**

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ferndale Dental Care

Dyddiad yr arolygiad: 25 Awst 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

	Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd proses ar waith ar gyfer cwblhau a chofnodi gwiriadau diwedd y dydd ar y cyfarpar dihalogi. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bylchau yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt a gwelsom nad oedd rhai gwiriadau wedi'u cynnal yn briodol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl wiriadau ar y cyfarpar dihalogi eu cynnal yn briodol ar ddiwedd y dydd a'u cofnodi'n gywir ac yn gyson.	Atal a Rheoli Heintiau	Mae'r gweithdrefnau dihalogi presennol ar waith. Trafodwyd y gwall cofnodi â'r tîm nyrsio er mwyn ategu pwysigrwydd dogfennaeth gywir. Bydd y brif nyrs yn parhau i oruchwylio'r gwiriadau dyddiol, a bydd rheolwr y practis yn cynnal hapwiriadau yn rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth	Rheolwr y Practis	Ar unwaith ar ôl yr arolygiad, a gwaith monitro parhaus.

2.	Trafodwyd y broses rheoli atgyfeiriadau â rheolwr y practis mewn ffordd adeiladol a rhoddwyd rhestr wirio ar waith i gryfhau'r broses cofnodi ac olrhain atgyfeiriadau a gohebiaeth rhyddhau cleifion. Roedd cofnodion ar gael ym mhob deintyddfa ar gyfer atgyfeiriadau lle amheuir achos o ganser y geg; fodd bynnag, nid oeddent yn cael eu defnyddio.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau addas ar waith i gofnodi, monitro ac olrhain atgyfeiriadau'n gyson, gan gynnwys atgyfeiriadau lle amheuir achos o ganser y geg, a sicrhau yr adolygir ac y gweithredir ar unrhyw ohebiaeth berthnasol yn briodol.	Cofnodion Cleifion	Mae cofnodion atgyfeirio bellach yn cael eu defnyddio'n gyson gan y clinigwyr. Cafodd y tîm nyrsio ei gynnwys yn y broses i sicrhau y caiff yr holl atgyfeiriadau, yn cynnwys atgyfeiriadau lle amheuir achos o ganser y geg, eu cofnodi'n briodol. Mae uwch-nyrs yn adolygu'r cofnodion yn wythnosol, yn olrhain atgyfeiriadau heb eu cwblhau ac yn sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw gamau gweithredu a gohebiaeth angenrheidiol yn brydlon.	Rheolwr y Practis	Ar unwaith ar ôl yr arolygiad, gyda gwaith monitro parhaus.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 20/10/2026